




Rhaglen Dysgu Llythrennedd Diwylliannol Canllawiau ynghylch Defnyddio'r Awgrymiadau ar gyfer Gwersi (Cynradd)

Gobeithio y byddwch yn mwynhau gwyllo'r ffilmiau a defnyddio'r awgrymiadau ar gyfer gwersi i hyrwyddo syniadau da, sgwrs a llythrennedd diwylliannol yn eich dosbarth. Bydd angen i chi ymgysylltu â'r deunyddiau datblygiad proffesiynol cyn symud ymlaen fel y gallwch osod y cwestiynau trafod yn eu cyd-destun ac ystyried y canlynol:

- Archwilio Llythrennedd Diwylliannol: Themâu ac Egwyddorion
- Hyrwyddo a Meithrin Deialog yn yr Ystafell Ddosbarth
- Cyflwyno Testunau Dieiriau: Rhyfeddodau'r Dieiriau

Mae'r canllawiau hyn wedi'u cynllunio i roi cymorth i chi wneud y gorau o'r cwestiynau trafod.

Mae'r cwestiynau trafod yn cynnwys amcanion ar gyfer Deialog a Dadlau, themâu Dealltwriaeth Ddiwylliannol a syniadau ar gyfer trafodaethau 'ynghylch' y ffilmiau a 'thu hwnt' i'r ffilmiau. Mae yna hefyd syniad ychwanegol ar gyfer Mynegiant Diwylliannol os ydych am estyn y wers i alluogi'r plant i ymateb yn amlfoddol i'r ffilmiau. *Awgrymiadau* ar gyfer gwersi yw'r rhain. Rydym wedi cael y llwyddiant mwyaf lle aeth yr athrawon i'r afael â'r syniadau cychwynol a rhoi eu pwyslais a'u safbwynt eu hunain ar y cynlluniau gwersi. Nid oes ar neb eisiau dilyn sgript gam wrth gam gan y gall deimlo'n gyfyngol yn y pen draw. Felly, rydym wedi cyflwyno syniadau y byddwch yn gallu eu defnyddio'n sail i gynllunio gwersi DIALLS, a hynny'n ôl eich anghenion a'ch diddordebau chi a'ch plant. Byddem yn awgrymu eich bod yn dilyn y gwersi yn ôl eu trefn gan fod yr amcanion yn achos deialog a dadlau yn adeiladu'n gronnus. Fodd bynnag, gallech gyfnewid ffilmiau os byddwch yn cadw trefn yr amcanion hyn mewn cof. Cofiwch fod y rhain yn gwestiynau trafod eang iawn. Bydd yn ofynnol addasu'r syniadau ar gyfer pob cyfnod allweddol (CA1 neu CA2), yn unol â phrofiadau eich plant. Defnyddir rhai ffilmiau ar gyfer mwy nag un grŵp oedran gan ein bod, yn syml, wedi addasu'r themâu trafod. Daw'r themâu ar gyfer y trafodaethau o'r olwyn DIALLS:



Gan fod Goddefgarwch, Empathi a Chynhwysiant yn nodweddion craidd ar gyfer DIALLS, rydym wedi eu cynnwys yn nhair gwerau gyntaf y Rhaglen Dysgu Llythrennedd Diwylliannol (CLLP), a hynny ar ffurf pynciau i'w trafod. Ar ben hyn, mae'r amcanion ar gyfer deialog a dadlau hefyd wedi'u hanelu at helpu plant i ddatblygu i fod yn oddefgar, yn empathetig ac yn gynhwysol yn eu hymddygiadau trafod. Edrychwch ar Offeryn Cynnydd Deialog y Graddfeydd Cynnydd ar gyfer Dysgu Llythrennedd Diwylliannol (SPCLL) i gael set o ddangosyddion ar gyfer y math hwn o sgwrsio.

Materion Sensitif

Argymhellir yn gryf eich bod yn gwyllo'r ffilmau cyn cynllunio eich gwarsi. Mae gan un neu ddwy o'r ffilmau eiliadau braidd yn od ynddynt. Er enghraifft, yn *Y Tŷ* (CA2) mae yna foment lle mae ci yn cael ei glymu wrth goes y tŷ, gan olygu ei fod yn hongian pan mae'r tŷ'n symud; yn yr un modd, yn *Y Draenog a'r Ddinas* (CA2), mae yna foment lle y mae ceirw Llychlyn yn yfed caniau o gwrw yn y parc. Mae diwyllianau ysgolion yn wahanol o ran yr hyn a fyddai'n dderbyniol i'w ddangos, felly meddyliwch am eich dosbarth! Os penderfynwch beidio â dangos ffilm, gallech estyn un o'r gwarsi eraill i gynnwys dilyniant y ddeialog. Fel yn achos unrhyw drafodaeth sy'n digwydd mewn ystafell ddosbarth, os byddwch yn teimlo bod y drafodaeth yn cymryd tro anghyfforddus yn achos unrhyw un o'r plant, dylech fynd i'r afael â hyn a dod â'r drafodaeth i ben.



Dechrau arni

Cyn dechrau ar yr awgrymiadau ar gyfer gwersi, neilltuwch amser i sôn wrth y plant am y prosiect DIALLS. Esboniwch fod hwn wedi bod yn brosiect a oedd yn cynnwys plant ledled Ewrop, ac iddo'r ffocws ar ddysgu amdanom ein hunain, y modd i gyd-fyw mewn ffordd garedig, a sut i fod yn gyfrifol am eraill – yr enw a roir ar hyn yw Llythrennedd Diwylliannol. Gallech edrych ar yr Oriol Rithwir o waith celf a grëwyd gan blant ledled y gwledydd sy'n rhan o'r prosiect – mae'r oriel i'w gweld ar y wefan www.DIALLS2020.eu. Efallai y bydd athrawon plant CA2 yn dymuno sefydlu 'Rheolau Sylfaenol ar gyfer Sgwrsio' cyn dechrau, ac mae hyn yn rhan o'r sesiwn gyntaf ar gyfer CA1.

Os ydych yn addysgu plant hŷn, efallai yr hoffech fynd ati i rannu'r olwyn DIALLS â'r disgyblion, sy'n cynnwys themâu diwylliannol gwahanol, a siarad am ystyr rhai o'r rhain. Yn achos plant iau, gallech edrych ar logo DIALLS a gofyn – Beth y mae'n eu hatgoffa ohono? Roedd rhai o'r plant yn y prosiect y llynedd wedi rhoi cynnig ar wneud eu logo eu hunain!





Esbonio'r Cwestiynau Trafod

Rydym wedi cynnwys y teitl yn ei iaith wreiddiol gyntaf. Dosbarthwr y ffilmiau sydd wedi rhoi'r cyfieithiadau.

Daw'r themâu Dealltwriaeth Ddiwylliannol o'n holwyn DIALLS. Maent i gyd yn cyd-fynd yn fras â'r cysyniadau diwylliannol Byw Gyda'n Gilydd, Cyfrifoldeb Cymdeithasol a Pherthyn. Ar brydiau, maent yn ymwneud â'r nodweddion craidd, sef Goddefgarwch, Empathi a Chynhwysiant, themâu trawsweithredol a allai gael eu hadlewyrchu yng nghynnwys y ffilmiau AC yn y ffordd y mae'r myfyrwyr yn ymgysylltu â'i gilydd.

Mae'r syniadau hyn yn rhai ar gyfer estyniadau y tu hwnt i'r wers, lle gallai'r plant ymateb i thema'r wers trwy gelf a drama. Syniadau, yn syml, yw'r syniadau – sef manau cychwyn ar gyfer eich archwiliadau dychmygus eich hun!


LESSON PROMPTS
5. La Loi du Plus Fort
[Law of the Jungle]
Pascale Hecquet, 2015, Belgium/France

Dialogue and Argumentation:
We can build on ideas
Discuss how 'building on' an idea is different to agreeing/disagreeing. Model and encourage building language eg. 'Building on X's point...', 'Going back to what X said...'

Cultural Understanding
Living Together: equality
We can discuss the ideas of equality and fairness


Discussion Prompts
About the film:

- *Were the animals being fair?*
- *Who should have received the biggest share? Does it matter who put in the most effort?*
- *Why did the bigger monkeys not realise what was happening?*

Beyond the film:

- *Is life always fair?*
- *Are fairness and equality the same thing?*
- *What can we do to promote equality?*

Ideas for Cultural Expression
Plan a class event (a tea party? a picnic?) Think about who will do the work, and how the food will be shared. Is it as simple as it seems?



Yn ogystal â chynnwys y drafodaeth, mae pob sesiwn yn canolbwyntio ar amcanion ar gyfer sgiliau sgwrsio. Dylai'r rhain gael eu rhannu â'r myfyrwyr a'u hadolygu ar ddiwedd y gwersi. Ystyriwch sut y gellir eu cyflawni trwy waith grŵp a sgwrs dosbarth cyfan.

Ynglych y ffilm: mae'r cwestiynau trafod sy'n ymwneud â'r ffilm yn archwilio deongliadau ac yn casglu ymatebion i'r ffilm ei hun, gan roi'r cyfle i ddeall y testun dieiriau.
Y tu hwnt i'r ffilm: mae'r cwestiynau trafod sy'n mynd y tu hwnt i'r ffilm yn symud y drafodaeth i lefel newydd, gan arwain at drafodaethau mwy athronyddol, sy'n cael eu llywio gan werthoedd, sef elfennau a allai fod yn heriol i'r myfyrwyr wrth iddynt wrando ar syniadau ei gilydd ac ymgysylltu â'r syniadau hynny.



Trosolwg o'r Sesiynau

| | Cyfnod Allweddol 1 | | | |
|----|---|---|---|--|
| | Ffilm | Thema Ddiwylliannol | Dealltwriaeth Ddiwylliannol | Dysgu am Ddeialog a Dadlau |
| 1 | The Amazing Little Worm [Y Mwydyn Bach Rhyfeddol] | Perthyn: (Hunaniaeth); Empathi | Rwy'n hoffi bod yn fi! | Gallwn ddysgu siarad â'n gilydd |
| 2 | Super Grand [Y Cawr Campus] | Goddefgarwch | Ni ddylem farnu pobl ar sail eu hymddangosiad | Gallwn rannu ein syniadau |
| 3 | Ant [Y Morgrugyn] | Cyd-fyw: Democratiaeth Cynhwysiant | Gallwn gynnwys syniadau pawb i wella pethau | Gallwn wrando'n ofalus ar ein gilydd |
| 4 | Big Finds a Trumpet [Mawr yn Dod o Hyd i Drwmped] | Cynhwysiant | Gallwn gynnwys y pethau y mae plant eraill yn eu hoffi | Gallwn annog ein gilydd i ymuno |
| 5 | La Loi du plus fort [Cyfraith y Jyngl] | Cyd-fyw: Cydraddoldeb | Gallwn feddwl am ba mor deg yw pethau | Gallwn roi rhesymau gan ddefnyddio'r gair 'oherwydd' |
| 6 | Head Up [Pen i Fyny] | Cyd-fyw: Amrywiaeth | Gallwn i gyd ddysgu oddi wrth ein gilydd, pa un a ydym yn fawr neu'n fach | Gallwn feddwl am syniadau pobl eraill |
| 7 | Novembre [Tachwedd] | Cyd-fyw: Undod | Gallwn weithio gyda'n gilydd i oresgyn problemau | Gallwn barchu syniadau pobl eraill |
| 8 | Mobile [Symudyn] | Cyfrifoldeb Cymdeithasol: Cydweithrediad | Gallwn gydweithredu i sicrhau bod pawb yn hapus | Gallwn adeiladu ar syniadau pobl eraill |
| 9 | Chiripajas [Chiripajas] | Cyfrifoldeb Cymdeithasol: Datblygu Cynaliadwy | Rydym yn deall sut y mae sbwriel yn effeithio ar yr amgylchedd | Gallwn gydweithio i gytuno ar syniad |
| 10 | Bumerangas [Bwmerang] | Cyfrifoldeb Cymdeithasol: Datblygu Cynaliadwy | Rydym yn deall bod yn rhaid i sbwriel fynd i rywle | Gallwn anghytuno weithiau – ac mae hynny'n iawn |



| | Cyfnod Allweddol 2 | | | |
|---|--|---|--|---|
| | Ffilm | Thema Ddiwylliannol | Dealltwriaeth Ddiwylliannol | Dysgu am Ddeialog a Dadlau |
| 1 | Ant [Y Morgrugyn] | Cyd-fyw: Democratiaeth Cynhwysiant | Rydym yn deall sut y gall democratiaeth gynnwys pawb | Gallwn annog pawb i gyfrannu |
| 2 | ISÄN POIKA [Bachgen Dad] | Goddefgarwch | Rydym yn deall pwysigrwydd goddefgarwch | Rydym yn parchu syniadau ein gilydd |
| 3 | Super Grand [Y Cawr Campus] | Goddefgarwch ac Empathi | Rydym yn deall pwysigrwydd peidio â barnu pobl heb eu hadnabod | Gallwn gyfiawnhau ein syniadau |
| 4 | Bokstavsborn [Llythrennau'n Cwmpo] | Empathi | Rydym yn deall pwysigrwydd gweld y byd trwy lygaid pobl eraill | Gallwn ddeall syniadau pobl eraill |
| 5 | La Loi du plus fort [Cyfraith y Jyngl] | Cyd-fyw: Cydraddoldeb | Gallwn drafod y syniadau o gydraddoldeb a thegwch | Gallwn adeiladu ar syniadau |
| 6 | Bumerangas [Bwmerang] | Cyfrifoldeb Cymdeithasol: Datblygu Cynaliadwy | Rydym yn deall effaith prynwriaeth | Gallwn herio syniadau mewn modd parchus |
| 7 | Chiripajas [Chiripajas] | Cyfrifoldeb Cymdeithasol: Datblygu Cynaliadwy | Rydym yn deall sut y mae sbwriel yn effeithio ar yr amgylchedd | Gallwn ddarganfod mwy am syniadau i geisio cael tir cyffredin |
| 8 | Die Igel und die Stadt [Y Draenog a'r Ddinas] | Cyfrifoldeb Cymdeithasol: Cymhwysedd Cymdeithasol a Dinesig | Gallwn drafod ffyrdd o wella cymunedau | Gallwn drafod syniadau i geisio cytundeb |
| 9 | Free Art [Celf Am Ddim] | Cyfrifoldeb Cymdeithasol: Cymhwysedd Cymdeithasol a Dinesig | Gallwn fyfyrion ar werth celf stryd | Gallwn newid ein meddwl |



| | | | | |
|----|------------------------|---------|---|--|
| 10 | De Boomhut [Y Tŷ Coed] | Perthyn | Gallwn fyfyrto ar y cysyniad o gartref a pherthyn | Gallwn drafod dewisiadau amgen a'u gwerthuso |
|----|------------------------|---------|---|--|